# Ardal Ni 2035
# Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus

(Chwefror – Mehefin 2022)

## Bro Dysynni.



CYNGOR GWYNEDD

# 1 Cyflwyniad

1.1 Bwriad prosiect Ardal Ni 2035 ydi cynnal sgwrs a thrafod gyda chymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut yr hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 cynllun adfywio penodol yn cael eu creu a fydd adlewyrchu blaenoriaethau a dyheadau cymunedau lleol.

1.3 Fel cam cyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- **Beth sy'n dda** am yr ardal?
- **Beth sydd ddim mor dda** am yr ardal?
- **Pa newidiadau fysech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal** yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

1.4 Fe wnaeth **15** o Gynghorau Cymuned/Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol ym Mro Dysynni gyflwyno eu syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda'r cyhoedd.

1.5 Ym mis Chwefror 2022 fe lansiwyd ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus ar gyfer pob un o'r 13 ardal/dalgylch, gyda gwahoddiad i bobl leol gyfrannu i'r gwaith o siapio prosiect Ardal Ni 2035 drwy lenwi holiadur syml ar-lein neu ar bapur.

1.6 Er mwyn annog cymaint o bobl â phosib i gymryd rhan, trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cynhwysfawr a oedd yn cynnwys:

- Datganiadau i'r wasg ac eitem ar y radio;
- Hysbysebion yn y papurau Bro;
- Taflenni gwybodaeth;
- Negeseuon drwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- Negeseuon amlwg ar dudalen gartref gwefan y Cyngor;
- Mynychu digwyddiad Balchder Gogledd Cymru ym Mangor.

1.7 Yn ogystal, trefnwyd cyfres o ymweliadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb i glywed lleisiau grwpiau ac unigolion nad yw'r Cyngor wedi clywed (rhyw lawer) ganddynt yn hanesyddol. Roedd rhain yn cynnwys:

- GISDA Blaenau Ffestiniog – Sesiwn drafod gyda'r criw Bwrdd Pobl Ifanc a sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Caernarfon - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Pwllheli - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- Dementia Actif Gwynedd, Y Bermo – Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif Gwynedd, Dolgellau - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif – Sesiwn drafod ar ôl chwarae Boccia yn Nhafarn yr Heliwr yn Nefyn.
- Dementia Actif, Caernarfon - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.

# 2 Trosolwg Sirol

**3,776** o unigolion ar draws Gwynedd wedi manteisio ar y cyfle i ddweud eu dweud:

- **3,675** o'r rhain wedi cwblhau'r holiadur ar-lein.
- **10** wedi cwblhau'r holiadur papur a oedd ar gael yn y llyfrgelloedd, siopau Gwynedd neu drwy gyflwyno cais dros y ffôn.
- **6** wedi cwblhau'r fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen' o'r holiadur.
- **85** o bobl wedi mynychu sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer **pobl ifanc**, **pobl ifanc LHDT+**, **pobl hŷn** a **phobl sy'n byw gyda dementia.**

## 2.1 **Nifer o ymatebwyr fesul ardal***




*Ar gyfer yr holiadur ar-lein a phapur.

## 2.2 Trosolwg o'r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd.




NODWCH EICH GRŴP OEDRAN
15 OED NEU'N IAU
43
16 - 24 OED
93
25 - 34 OED
380
35 - 44 OED
581
45 - 54 OED
859
55 - 64 OED
890
65 - 74 OED
525
75 - 84 OED
144
85+ OED
22
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
146
0
200
400
600
800
1000


YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
1963
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
1641
DARLLEN CYMRAEG
1577
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
1413
DDIM YN DEALL CYMRAEG
706
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
449
0
500
1000
1500
2000
2500


CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
1880
SEISNIG
482
ALBANAIDD
21
GWYDDELIG O OGLEDD IWERDDON
2
PRYDEINIG
844
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
212
ARALL:
97
0
500
1000
1500
2000


BETH YW EICH HIL?
GWYN
DU / CARIBÏAIDD AFFRICANAIDD
ASIAIDD
SIPSIWN / TEITHIWR GWYDDELIG
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
3204
12
10
4
25
260
19
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
MWSLEMAIDD
BWDHAIDD
HINDW
IDDEWIG
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
1789
6
22
4
8
820
803
236
0
500
1000
1500
2000


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
3055
DYN HOYW
47
DYNES HOYW / LESBIAN
29
DEURYWIOL (BISEXUAL)
53
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
425
ARALL:
28
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
46
NA
3218
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
300
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
317
NAC YDW
3068
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
305
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500

# 3 Canlyniadau Bro Dysynni

## 3.1 Trosolwg o’r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Bro Dysynni.

3.2 Derbyniwyd **298** o ymatebion i’r Holiadur Ardal Ni 2035 ar gyfer Bro Dysynni.







YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
74
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
98
DARLLEN CYMRAEG
70
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
51
DDIM YN DEALL CYMRAEG
119
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
68
0
20
40
60
80
100
120
140


CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
95
SEISNIG
69
ALBANAIDD
3
PRYDEINIG
102
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
24
ARALL:
7
0
20
40
60
80
100
120


BETH YW EICH HIL?
GWYN
268
SIPSIWN/TEITHIWR GWYDDELIG
1
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
1
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
25
ARALL:
5
0
50
100
150
200
250
300


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
BWDHAIDD
IDDEWIG
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
163
2
2
55
57
21
0
20
40
60
80
100
120
140
160
180


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
DYN HOYW
DYNES HOYW
DEURYWIOL
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
240
1
7
9
39
3
0
50
100
150
200
250
300


YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
NA
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
2
275
21
0
50
100
150
200
250
300


A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
NAC YDW
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
39
235
26
0
50
100
150
200
250

# 4 Nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref ym Mro Dysynni.

4.1 Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref ym Mro Dysynni.

| Tref/Pentref | Nifer o ymatebwyr |
|---|---|
| • Tywyn | **146** |
| • Aberdyfi | **46** |
| • Llwyngwril | **34** |
| • Bryncrug | **24** |
| • Abergynolwyn | **20** |
| • Llanegryn | **11** |
| • Pennal | **7** |
| • Rhoslefain | **3** |
| • Aberllefenni | **2** |
| • Arall: | **2** |
| • Llanfihangel-y-Pennant | **1** |
| • Tal-y-Llyn | **1** |

# 5 Beth sy'n dda am Fro Dysynni?

5.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Dysynni. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Dysynni i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sy'n dda am Fro Dysynni?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | **259** |
| • Amgylchedd yr ardal - Aer glan, dim llygredd ac ati | **193** |
| • Mae'n ardal ddiogel | **188** |
| • Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | **130** |
| • Mae'r ardal yn le da i fagu teulu | **112** |
| • Treftadaeth a hanes yr ardal | **110** |
| • Cyfleusterau hamdden yr ardal - Canolfan Hamdden, Sinema, Llyfrgell | **102** |
| • Gallu'r ardal i ddenu twristiaeth er budd economaidd | **97** |
| • Mae safon ffyrdd yr ardal yn dda | **60** |
| • Darpariaeth addysg ac ysgolion da | **55** |
| • Mae trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn dda | **24** |

Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth arall sy'n dda am Fro Dysynni sydd heb ei restru uchod'**, derbyniwyd **51** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Bro Dysynni. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Yr amgylchedd naturiol (n=9); ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol yr ardal (n=7); Mae'n ardal ddiogel (n=3); Mae'r ardal yn le da i fagu teulu (n=3).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd ddim mor dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Amrywiaeth o siopau annibynnol a llefydd i fwyta | **4** |

5.2 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o’r gwaith o ddatblygu’r cynlluniau ardal.

# 6 Beth sydd ddim mor dda am Fro Dysynni?

6.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Dysynni. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Dysynni i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| Beth sydd ddim mor dda am Fro Dysynni? | Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema |
|---|---|
| • Pryder yn lleol am ddarpariaeth iechyd a lles a gofal yn yr ardal | **174** |
| • Ardal ddim yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth - Cyngor Gwynedd wedi anghofio am yr ardal neu gyda dim ymwybyddiaeth o anghenion lleol yr ardal | **154** |
| • Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu eu rhentu | **134** |
| • Nifer uchel o ail dai a thai haf yn yr ardal | **122** |
| • Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser | **116** |
| • Dim Canolfan Ailgylchu yn yr ardal | **111** |
| • Mae'r economi leol yn fregus – diffyg adnoddau a siopau yn cau | **108** |
| • Trafnidiaeth gyhoeddus yn annigonol yn yr ardal | **102** |
| • Mae tlodi a chostau byw uchel yn broblem yn yr ardal | **65** |
| • Mae sbwriel, blerwch a gwedd gyffredinol yr ardal yn broblem | **44** |
| • Polisïau tai a'r cynllun Datblygu Lleol | **43** |
| • Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant yn colli tir a diffyg cyfleoedd i ddysgwyr yr iaith | **36** |
| • Diffyg twristiaeth gynaliadwy yn yr ardal | **34** |
| • Diffyg darpariaeth gofal a gweithgareddau i bobl hŷn | **34** |
| • Mae pryder am gyflwr ffyrdd a thraffig mewn nifer o leoliadau | **33** |
| • Effaith llifogydd ar yr ardal a chymunedau | **24** |
| • Prinder gwirfoddolwyr i ymuno â phwyllgorau a sefydliadau lleol | **8** |

6.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth arall sydd <u>ddim mor dda</u> am Fro Dysynni sydd heb ei restru uchod',** derbyniwyd **133** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Bro Dysynni. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Pryder yn lleol am ddarpariaeth iechyd a lles a gofal yn yr ardal (n=17); Mae sbwriel, blerwch a gwedd gyffredinol yr ardal yn broblem gan gynnwys baw ci a'r achos o dywod yn amharu ar mynediad i'r traeth mewn rhai llefydd (n=15); Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser (n=7); Diffyg twristiaeth gynaliadwy yn yr ardal (n=5); Ardal ddim yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth - Cyngor Gwynedd wedi anghofio am yr ardal neu gyda dim ymwybyddiaeth o anghenion lleol yr ardal (n=4); Mae pryder am gyflwr ffyrdd, traffig a pharcio mewn nifer o leoliadau (n=6).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd ddim mor dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Diffyg gweithgareddau a darpariaeth i blant a phobl ifanc yr ardal | **13** |
| • Sylwadau am y defnydd o'r Iaith Gymraeg yn yr ardal | **7** |
| • Diffyg llwybrau cerdded/beicio mewn rhai llefydd e.e. Llwyngwril a rhwng Tywyn ac Aberdyfi. | **4** |
| • Diffyg siopau gan gynnwys gorfod teithio yn bell i archfarchnadoedd mwy | **4** |
| • Materion ynghylch Treth Cyngor | **4** |

6.3 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 7 Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd ym Mro Dysynni dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?

7.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Dysynni. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Dysynni i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd ym Mro Dysynni dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi? | Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema |
|---|---|
| • Cynlluniau i gryfhau'r adnoddau iechyd a gofal yn lleol | **186** |
| • Cynlluniau i ddatrys mater Gwesty'r Corbett yn Nhywyn | **142** |
| • Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | **118** |
| • Mae angen Canolfan Ailgylchu yn Nhywyn | **110** |
| • Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol yr ardal | **98** |
| • Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol a hyrwyddo cynnyrch lleol byddai hefyd yn denu mwy o fusnesau fydd yn creu swyddi gwerth uchel i'r ardal | **93** |
| • Cynlluniau ar gyfer darparu gweithgareddau a chefnogi pobl ifanc | **86** |
| • Cynlluniau i sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel | **86** |
| • Cyflwyno deddfwriaeth i reoli'r maes tai haf ac ail gartrefi yn effeithiol | **82** |
| • Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | **69** |
| • Cynlluniau i gryfhau'r darpariaeth gofal i bobl hyn a phobl fregus | **63** |
| • Gwella'r seilwaith band eang | **58** |
| • Mae angen cynllun i foderneiddio'r toiledau cyhoeddus | **56** |
| • Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth a gwneud y mwyaf o'r potensial economaidd i bobl leol | **46** |
| • Angen i'r Awdurdod Lleol a phartneriaid strategol a chymunedol gyfathrebu yn well er budd cymunedau | **39** |
| • Cynlluniau i wella cyfleusterau ac adnoddau cymunedol lleol er mwyn dod a phobl at eu gilydd | **28** |

| | |
|---|---|
| • Cynlluniau i fuddsoddi er mwyn gwella ffyrdd yr ardal | **19** |
| • Cefnogaeth i'r sector amaethyddol | **19** |

7.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth yr ydych yn meddwl sydd wedi'i fethu uchod',** derbyniwyd **90** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Bro Dysynni. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Cynlluniau i gryfhau'r adnoddau iechyd a gofal yn lleol (n=9); Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati (n=6); Cynlluniau i ddatrys mater Gwesty'r Corbett yn Nhywyn (n=5); Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol (n=3).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Sylwadau ynghylch Premiwn Treth Cyngor | **8** |
| • Cynlluniau i gwblhau/creu llwybr cerdded beicio diogel rhwng Tywyn ac Aberdyfi | **6** |
| • Cynlluniau i edrych ar faterion parcio mewn ambell i leoliad | **5** |
| • Cynlluniau mynd i'r afael a problem baw ci mewn ambell i leoliad | **3** |

7.3 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 8 Camau Nesaf

8.1 Yn ystod yr hydref, bydd yr holl adborth yr ydym wedi'i dderbyn gan breswylwyr a sefydliadau Bro Dysynni yn cael ei defnyddio mewn gweithdai gyda sefydliadau lleol fel rhan o waith i ddatblygu Cynllun Gweithredu Lleol.

8.2 Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sydd yn cyfrannu at adfywio a gwella ardal Bro Dysynni.

8.3 Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu, gan ystyried strwythurau a trefniadau cydweithio presennol.

8.4 Mae'r amserlen ar gyfer camau nesaf o'r gwaith fel a ganlyn:

- Gweithdai gyda sefydliadau Lleol : Hydref / Tachwedd 2022
- Cynlluniau Gweithredu Drafft yn cael eu paratoi : Mawrth 2023
- Derbyn sylwadau neu ychwanegiadau i'r ddogfen ddrafft : Ebrill 2023
- Cynllun Gweithredu diwygiedig : Ebrill / Mai 2023
- Trefniadau Cyd-lynu a monitro yn weithredol : Mai 2023

8.5 Bydd gwybodaeth pellach am y cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi ar safle we Cyngor Gwynedd (www.gwynedd.llyw.cymru).

8.6 Hoffem ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd yr amser i roi eu barn ac i gyfrannu i'r gwaith o wella a chryfhau ein cymunedau.